CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Wener y 5ed o Orffennaf 2024 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Ken Griffiths, Sion Evans a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry.

   Estynnodd groeso arbennig i'r Cyng Sion Evans i'w gyfarfod cyntaf fel Cynghorydd dros Pennal, a'I wahodd I gyfrannu yn rhwydd I'r trafodaethau.

   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Aled Rees a Cyng Meirion Roberts, a Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd)

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 17eg o Fai 2024 ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng Ken Griffiths.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r angen i lenwi 'potholes' drwy pentref Pennal, a bod y gwaith mewn llaw. Trafodwyd eto y cwynion am y junction T lle roedd yr A493 o Bennal yn cyfarfod y ffordd newydd dros y bont ar yr A487. Roedd siom am y sefyllfa, gan fod damweiniau wedi bod yno yn barod. Gofynnwyd I'r Clerc adrodd am y pryder I'r Cyng Dewi Owen y byddai yn trafod hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf. Byddai diwrnod gwaith yn cael ei drefnu yno yn fuan.

      Cyfeiriwyd at y gwaith torri gwair yn y fynwent newydd, ac roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Aled Evans a oedd yn gwneud y gwaith o fewn y dyddiau diwethaf. Roedd y Cyngor yn hapus gyda'r gwaith.
   **c)** **Carafan static Cwm Sylwi,** - darllenwyd ymateb diweddaraf Jane Jones, Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth y Parc Cenedlaethol. Dywedodd Cyng James Brunton y byddai yn ceisio cael gwybodaeth a yw'r tanc septig wedi ei gofrestru cyn symud ymlaen i gael gwybodaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Diolchwyd yn fawr iawn i James.
   **d)** **Difibrillators** – adroddodd y Clerc y diweddaraf. Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, roedd siec am £1537.44 wedi ei ddanfon am di fib newydd i Pennal, ac roedd bellach wedi ei ddanfon i Esgairweddan, Roedd y Clerc wedi siarad ymhellach gyda Tomos Hughes, ac roedd wedi trefnu iddo ymweld a Pennal Nos Lun 8fed Gorffennaf am 5yh.
   **e)** **Gwaith ar y toiledau yn Pennal** – roedd cadarnhad fod hyn bellach wedi ei gwbwlhau.

5**. Materion Cynllunio**

Roedd un cais i law, sef;

**NP5/75/179D –** Codi adeilad amaethyddol dros y storfa tail presennol yn **Cefn Crib, Pennal.**

Cadarnhwyd fod y Cyngor yn gefnogol i'r cais

6.**Materion Cyllid**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (5.07.24), sef Cyfri Cyfredol £10,894.13, Cyfri Cadw £2650.77.

b) **Cyfrifon y Cyngor 2023-24** - cadarnhawyd eu bod bellach wedi eu danfon i'r archwilydd allanol, Archwilio Cymru. Roedd hysbyseb gyhoeddus ar wefan y Cyngor a'r hysbysfyrddau.

c) Cytunwyd, ar gynnig Cyng William Rees a'I eilio gan Cyng James Brunton I dalu cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc £500.19 a HMRC £124.80.

   Hefyd gyfraniad o £100 i Papur Bro Dail Dysynni yn dilyn cais oedd I law.

**7. Gohebiaeth**

a) Roedd e-bost I law gan Uwch Beirionnydd Cyngor Gwynedd ynglyn a cwyn i law am waith ochr ffordd ger Rhif 1, Rhys Terrace. Roedd cais ganddynt fod yr unigolyn dan sylw yn adfer ochr y ffordd cyn gynted a phosib, a bydd yr arolygwr ynn cadw golwg ar y sefyllfa. Nodwyd mai ADRA yw perchennog y tir dan sylw.

b) Nodwyd ohebiaeth gan Panel Annibynnol Cymru (Llywodraeth Cymru) ynglyn a cydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr 2024-25.

c) Nodwyd lythyr yr Ysgrifennyd Cabinet Ken Skates ynglyn a mater cyfyngiad 20mya. Nodwyd nad oedd angen awgrymu unrhyw newidiadau.

d) **Hyfforddiant Cynghorwyr** – Cadarnhwyd y byddai Cyng James Brunton a Rhys Parry yn cofrestru ar gyfer **Dydd Mawrth 24/09/24 Cod Ymddygiad Modiwl 9 yn Gymraeg – 6.30-8.00yh**

8**.Unrhyw fater arall.**

a) Roedd perth/llwyn yn tyfu I'r ffordd ger ty Enlli ar Tower Road, ac a allai fod yn beryglys i ddefnyddwyr y ffordd. Roedd angen tynnu sylw yr Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

b) Roedd cwch/ fan Transit yn parhau wedi parcio ar dir Adra, a dylid eu hatgoffa am y sefyllfa..

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 30ain o Awst, yn y Ganolfan am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.45pm.